## Cyfarfod BGC Pen-y-bont ar Ogwr
**Dydd Llun, yr 28ain o Fawrth 2022, am 14.00.**

**Nodiadau'r Cyfarfod**

| Yn bresennol: | Sefydliad |
|---|---|
| Mark Brace, Cadeirydd | Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) |
| Simon Pirotte | Coleg Pen-y-bont ar Ogwr |
| Martin Morgans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Karen Bateson | Sefydliad y Rhiant a'r Baban |
| Helen Hammond | BGC, CBS Pen-y-bont ar Ogwr |
| Mark Shepherd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Judith Jones | BGC, CBS Pen-y-bont ar Ogwr |
| Richard Hughes | Ymddiriedolaeth Awen |
| Christian Hadfield | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Stephen Jones | Heddlu De Cymru |
| Kelechi Anoaham | BGC |
| Mari Arthur | Cyflog Byw Gwirioneddol |
| Y Cyng Richard Young | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Alyson Francis | Llywodraeth Cymru |
| Joanne Oak | O'r Cymoedd i'r Arfordir |
| Stephanie Davies | BGC, CBS Pen-y-bont ar Ogwr |
| Kirsty Smith | BGC, Rhondda Cynon Taf |
| Andy Robinson | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Emma Richards | Y Gwasanaeth Prawf - Cwm Taf |
| Huw David | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Ymddiheuriadau** | |
| Paul Mears | Bwrdd Iechyd Cwm Taf |
| Matthew Bennett | Adran Gwaith a Phensiynau |
| Heidi Bennett | BAVO |
| Huw Jakeway | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |

| Rhif | Sylw | Cam Gweith-redu |
|---|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau** | |
| **1.1** | Croesawodd y CADEIRYDD bawb i'r cyfarfod.<br>Derbyniwyd ymddiheuriadau fel y rhestrir uchod. | |
| **2** | **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg o Ragfyr 2021 a'r materion oedd yn codi** | |
| **2.1** | Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir. | |
| **2.2** | Mae'r CAMAU GWEITHREDU o'r cyfarfod blaenorol wedi eu rhestru ar yr agenda heddiw ac felly cânt eu trafod drwy gydol y cyfarfod. | |
| **3** | **Cyflog Byw Gwirioneddol** | |
| **3.1** | Rhannodd Mari Arthur gyflwyniad â'r aelodau drwy gyfrwng Timau. Cyd-destun hwn yw'r broses achredu ar gyfer y cyflog byw gwirioneddol, a'r | |



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English

| | | |
|---|---|---|
| | gwahaniaethau rhwng y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r cyflog Byw Gwirioneddol.<br>**Cam gweithredu: Mari i anfon y cyflwyniad ar gyfer ei ddosbarthu.**<br>**Cam gweithredu: Y cyflwyniad i gael ei gynnwys yn y cofnodion**<br>Gofynnodd Simon Pirotte a oedd yna unrhyw rwystrau gyda'r broses hon o ran y contractwyr. Dywedodd MA fod yna nifer o dempledi gwahanol sydd wedi cael eu creu i gynorthwyo gyda'r mater hwn a nododd unwaith y bydd achrediad wedi digwydd y bydd swm sylweddol o gefnogaeth ar gael.<br>**Cam gweithredu: Aelod o bob sefydliad i gael ei ddewis fel y cyswllt i weithredu'r broses hon.** | **MA SD**<br><br>**Pawb** |
| **4** | **Sicrhau Bywydau Iach** | |
| **4.1** | Rhoddodd y Dr Karen Bateman gyflwyniad cryno i Sefydliad y Rhiant a'r Baban a sut y cawsant eu dewis i gynnal ymarferiad rhychwantu i ddarganfod unrhyw fylchau sydd gan sefydliadau o ran perthnasau rhieni a babanod. Rhannwyd cyflwyniad gydag aelodau'r cyfarfod drwy gyfrwng Timau.<br>**Cam gweithredu: Y cyflwyniad i gael ei rannu a'i gynnwys yn y cofnodion.**<br>Tua diwedd y cyflwyniad soniwyd am grŵp llywio amlasiantaethol ar gyfer Trawsffurfio'r Blynyddoedd Cynnar y mae ar yr elusen angen cefnogaeth ar ei gyfer drwy gynrychiolaeth aelodau yn y cyfarfod hwn. Holodd Kelechi sut y byddwn yn sicrhau bod y trosglwyddiadau yn cael eu cwblhau'n gywir ar draws yr holl wasanaethau heb ddyblygu na chamgymeriad a sut y gallwn godi ymwybyddiaeth yng ngweithluoedd ein gwasanaethau cyhoeddus. Cytunai Dr Bateman fod arnom angen dull system gyfan, a bod y dull newydd yn gweithio i wella ac addasu'r dulliau gwreiddiol er mwyn llenwi unrhyw fylchau yn y broses sy'n bresennol ar hyn o bryd ar draws yr holl wasanaethau.<br>**Cam gweithredu: Aelodau i gysylltu â grŵp llywio Trawsffurfio'r Blynyddoedd Cynnar** | **DrKB/SD**<br><br>**Pawb** |
| **5** | **Asesiad Llesiant Drafft Cwm Taf Morgannwg** | |
| **5.1** | Rhannodd Judith Jones gyflwyniad ar yr Asesiad Llesiant gyda'r grŵp, oedd yn rhoi diweddariad ar hynt yr ymgynghoriad, yr amserlenni a'r adborth oedd wedi cael ei roi hyd yn hyn.<br>well-being assessment JJ.pptx<br>**Cam gweithredu:** Y cyflwyniad i gael ei rannu a'i gynnwys yn y cofnodion | **JJ/SD** |
| **6** | **Adolygiad o Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Cwm Taf Morgannwg** | |
| **6.1** | Dywedodd Judith Jones fod y papurau ar gyfer hyn wedi cael eu cylchredeg yn gynharach. Ar hyn o bryd mae dwy bartneriaeth diogelwch cymunedol yng Nghwm Taf Morgannwg ac mae gan Ben-y-bont ar Ogwr ei PDC ei hun. Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r fframwaith o amgylch y grwpiau strategol hyn wedi symud ymlaen i ôl troed mwy rhanbarthol, felly mae'n amserol adolygu'r trefniadau a hefyd edrych ar sut y gall y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol fod o gymorth i | |



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.  This document is also available in English

| | | |
|---|---|---|
| | gyflawni'n effeithiol y dyletswyddau newydd sy'n cael eu gosod ar awdurdodau lleol, ac yn ystyried y cyrff annibynnol o fewn sefydliadau a'u dyletswyddau, ac felly ddatblygu un map partneriaeth diogelwch cymunedol. Rhoddodd JJ amserlen fer o'r camau datblygu yn y cynllun. | |
| **7** | **Sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg** | |
| **7.1** | Rhannodd Mark Brace gyflwyniad gyda'r aelodau yn y cyfarfod drwy gyfrwng timau yn rhoi manylion cyfuno'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.<br>**Cam gweithredu: Y cyflwyniad i gael ei rannu a'i gynnwys yn y cofnodion.**<br>Holodd Andy Robinson a oedd modd cael adborth gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i weld a oedd ganddynt unrhyw gyngor. Cytunai MB a dywedodd y byddai arweiniad gan Lywodraeth Cymru o bosibl yn gymorth hefyd i sicrhau trosglwyddiad didrafferth.<br>**Cam gweithredu: Aelodau i gysylltu â HH neu JJ i wirfoddoli i fod yn rhan o'r grŵp trosglwyddo.** | **MB/SD**<br><br>**Pawb** |
| **8** | **Adroddiad blynyddol BGC Pen-y-bont ar Ogwr.** | |
| **8.1** | Rhoddodd Helen Hammond sylwadau ar yr adroddiad blynyddol blaenorol a chyflwynodd hwn i aelodau'r cyfarfod drwy gyfrwng Timau. Bydd yr adroddiad blynyddol newydd yn adlewyrchiad o hwn wedi ei ddiweddaru, a chaiff ei gyhoeddi ddim hwyrach na'r 4ydd o Orffennaf. Os yw aelodau yn hapus i symud ymlaen gyda hyn, fe ddaw hi ag adroddiad drafft i'r cyfarfod nesaf ym mis Mehefin i'w gymeradwyo cyn ei gyhoeddi.<br>**Cam gweithredu: Drafft o'r Adroddiad Blynyddol i gael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf**<br>Gofynnodd MB a allai adroddiad blynyddol Cwm Taf ac adroddiad blynyddol Pen-y-bont ar Ogwr fod yn gyson â'i gilydd i adlewyrchu uno'r BGCau. Dywedodd Kirsty y gellid cyfuno cynnwys adroddiad Pen-y-bont ar Ogwr a Chwm Taf gyda mân wahaniaethau yn unig i ddangos cefnogaeth i'r uno wrth symud ymlaen. | **HH** |
| **9** | **Map Ffordd Dyfodol Addas i Gymru i Wythnos Waith Fyrrach** | |
| **9.1** | Rhannwyd yr adroddiad gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol am yr wythnos waith fyrrach er gwybodaeth gyda'r aelodau. | |
| **10** | **Unrhyw Fater Arall** | |
| **10.1** | Soniodd Huw David am bwnc argyfwng y ffoaduriaid yn yr Wcráin ac a allai'r Prif Weithredwr roi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn cyfarfod yn y dyfodol, gan eu bod yn ystyried ac yn gobeithio nodi canolfan ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a byddai'n ddefnyddiol pe gallai partneriaid gynnig cysylltiadau a chymorth i hwn, er mwyn y ffoaduriaid.<br>**Cam gweithredu: HD i gysylltu i weld a oes angen unrhyw gymorth ar gyfer y Ganolfan Ffoaduriaid oddi wrth aelodau'r BGC** | **Pawb** |
| **11** | **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** | |
| **11.1** | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar y 10fed o Fehefin 2022 yng Ngholeg Pen-y-bont, Campws Pencoed<br>Diolchodd y Cadeirydd, i bawb am eu cyfranogaeth a daeth y cyfarfod i ben | |

| **Cofnod gweithredu** |
|---|

| Eitem | Cam Gweithredu | Gan bwy |
|---|---|---|
| **3.1** | **Cam gweithredu: Mari i anfon y cyflwyniad ar gyfer ei ddosbarthu.** | **MA** |
| **3.1** | **Cam gweithredu: Y cyflwyniad i gael ei gynnwys yn y cofnodion.** | **SD** |
| **3.1** | **Cam gweithredu: Aelod o bob sefydliad i gael ei ddewis fel y cyswllt i weithredu'r broses hon.** | **Pawb** |
| **4.1** | **Cam gweithredu: Y cyflwyniad i gael ei rannu a'i gynnwys yn y cofnodion.** | **DrKB/SD** |
| **4.1** | **Cam gweithredu: Aelodau i gysylltu â'r grŵp llywio.** | **Pawb** |
| **5.1** | **Cam gweithredu: Y cyflwyniad i gael ei rannu a'i gynnwys yn y cofnodion.** | **JJ/SD** |
| **7.1** | **Cam gweithredu: Y cyflwyniad i gael ei rannu a'i gynnwys yn y cofnodion.** | **MB/SD** |
| **7.1** | **Cam gweithredu: Aelodau i gysylltu â HH neu JJ i wirfoddoli i fod yn rhan o'r grŵp trosglwyddo.** | **Pawb** |
| **8.1** | **Cam gweithredu: Drafft o'r Adroddiad Blynyddol i gael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf** | **HH** |
| **10.1** | **Cam gweithredu: HD i gysylltu i weld a oes angen unrhyw gymorth ar gyfer y Ganolfan Ffoaduriaid oddi wrth aelodau'r BGC.** | **Pawb** |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.  This document is also available in English